**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023**

*Pwynt Craffu Technegol 1:* Nodwn y bydd rhoi “safle rheoli ar y ffin” yn lle “arolygfa ffin” yn golygu nad yw’r geiriad newydd bellach yn ymddangos yn y safle cywir yn nhrefn yr wyddor yn y testun Cymraeg yn rheoliad 2 o Reoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018. Bydd mân newid yn cael ei wneud i eiriad y ddarpariaeth er mwyn cywiro hyn cyn gwneud y Rheoliadau.

*Pwynt Craffu Technegol 2:* Nodwn ei bod yn ddiangen diffinio “Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984” fel “Deddf 1984” mewn cromfachau ar ôl enw llawn y Ddeddf honno yn y rhaglith gan na chyfeirir at y Ddeddf eto yn y Rheoliadau. Bydd hyn yn cael ei gywiro cyn gwneud y Rheoliadau.

*Pwynt Craffu Technegol 3:* Nodwn fod “Colofn 2” a “Colofn 3” wedi eu hepgor ar ben y colofnau yn rhes gyntaf y colofnau a amnewidir yn rheoliad 2(5). Bydd yr hepgoriad hwn yn cael ei gywiro cyn gwneud y Rheoliadau.

*Pwynt Craffu Technegol 4:* Gyda’i gilydd, yn ein barn ni mae’r disgrifiadau yn rheoliad 3(8)(a)(iii)(aa) a 3(8)(a)(iii)(bb) yn caniatáu ar gyfer gwahaniaethu yn y diwygiadau i chweched res y Tabl yn Atodlen 3 i Reoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018, oherwydd dylai darllenydd allu deall bod 3(8)(a)(iii)(aa) yn diwygio “an EC” yn y lle cyntaf y mae’n ymddangos, tra bo 3(8)(a)(iii)(bb) yn diwygio “or an EC”, sy’n ymddangos yn ddiweddarach yn chweched res Colofn 1. Fodd bynnag, er eglurder, bydd mân newid yn cael ei wneud i’r geiriad yn rheoliad 3(8)(a)(iii)(aa) cyn gwneud y Rheoliadau er mwyn ei gwneud yn glir yr amnewidir yn y lle cyntaf y mae “an EC” yn ymddangos.

*Pwynt Craffu Technegol 5:* Er bod Nodyn (2) yn nodyn ar gyfer Tabl 2 yn ei gyfanrwydd yn Atodlen 6 i Reoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018, mae wedi ei droednodi yng Ngholofn 2 y tabl, sy’n cael ei hamnewid yn awr gan Golofn 2 newydd. Felly, rydym o’r farn y dylid ei gynnwys fel rhan o’r amnewidiad. Fodd bynnag, dylai’r dyfynodau cau felly ymddangos ar ddiwedd Nodyn (2) yn hytrach nag ar ôl geiriau terfynol Colofn 2, a bydd hyn yn cael ei gywiro cyn gwneud y Rheoliadau.

*Pwynt Craffu ar Rinweddau 7:* Er bod y pwerau galluogi y cyfeirir atynt yn y rhaglith yn gywir, ac felly nad effeithir ar ddilysrwydd y Rheoliadau, nodwn y byddai wedi bod yn arfer well datgan is-adrannau penodol adran 10 o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984 wrth nodi’r pwerau galluogi hynny, yn hytrach na dim ond enwi adran 10. Bydd hyn yn cael ei gywiro cyn gwneud y Rheoliadau.

*Pwynt Craffu ar Rinweddau 8:* Er bod y cyfeiriad at baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn gywir, nodwn y byddai wedi bod yn well cyfeirio hefyd at baragraff 12 o Atodlen 7 er mwyn nodi’n glir berthnasedd paragraff 1(8). Er mwyn gwella hygyrchedd, bydd hyn yn cael ei gywiro cyn gwneud y Rheoliadau.

*Pwynt Craffu ar Rinweddau 9:* Cyfathrebwyd â rhanddeiliaid a dargedwyd, o dan arweiniad APHA, a hynny ledled Prydain Fawr. Dyma oedd y ffurf ymgysylltu fwyaf priodol. Mae'r dolenni i ddiweddariadau gov.uk mis Awst 2022 a mis Mawrth 2023 bellach wedi'u hychwanegu at fersiynau Cymraeg a Saesneg y Memorandwm Esboniadol.

Yn ogystal â'r cyfathrebiadau ffurfiol hyn, trafodwyd newidiadau i ffioedd yn ystod cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid ym mhob maes polisi y mae'r Rheoliadau yn effeithio arnynt.